Gwasanaeth Arian a Phensiynau

# MoneyView Cymru 2025

Sut mae pobl yng Nghymru yn teimlo am arian

# Cynnwys

**Cyflwyniad** 2

**Rhagair** 3

**Y data** 4

**Crynodeb Gweithredol** 6

Cipolwg ar Gymru 6

Cymru: tueddiadau 8

**Y cysylltiad rhwng cynhwysiant ariannol a llesiant ariannol** 10

**Llesiant ariannol a chynhwysiant ariannol** 11

**Mesur llesiant ariannol** 13

**Angen cyngor ar ddyledion** 15

**Cipolwg ar y cenhedloedd** 17

**Geirfa** 19

# Ynglŷn â'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau

Mae'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) yn gorff hyd braich a noddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), a sefydlwyd gan Ddeddf Canllawiau Ariannol a Hawliadau 2018.

Rydym yn gweithredu ar draws pum swyddogaeth graidd. Rydym yn arwain strategaeth ledled y DU i wella llesiant ariannol, gan sicrhau gweithredu cydlynol ar draws y llywodraeth, diwydiant a chymunedau ym mhob un o'r pedair gwlad. Rydym yn cefnogi gweithredu ar y cyd ar ddiogelu defnyddwyr, gan rannu data a mewnwelediadau gyda rheoleiddwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill. Drwy ein swyddogaethau cyflawni, rydym yn darparu ac yn galluogi canllawiau ariannol ledled y DU ac yn comisiynu cyngor ar ddyledion yn Lloegr.

- Grymuso pobl i wneud penderfyniadau ariannol gwybodus.
- Osgoi dyblygu diangen wrth ddarparu gwybodaeth, canllawiau a chyngor.
- Sicrhau eglurder a gwerth, gan ddarparu gwasanaethau yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol.
- Blaenoriaethu'r rhai sydd ein hangen fwyaf, gan gynnwys pobl mewn amgylchiadau bregus.
- Gweithio ledled y DU, gan gynnwys gyda'r llywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

# Rhagair



Mae'n bleser mawr gennyf rannu canfyddiadau rhifyn Cymru o'n harolwg MoneyView. Yng Nghymru, fe wnaethom gasglu fwy na 1000 o ymatebion, o bob cwr o'r wlad, gyda'r arolwg ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg. Gyda chyfanswm o dros 12,000 o ymatebwyr wedi'u gwasgaru ar draws pedair gwlad y DU, MoneyView yw ein harchwiliad mwyaf cynhwysfawr o lesiant a chynhwysiant ariannol hyd yma.

Mae MoneyView Cymru yn cynnig cipolwg unigryw ar lesiant ariannol y boblogaeth, gan geisio deall sefyllfa ariannol pobl a'u teimladau cyfredol tuag at eu harian yn well. Yn hollbwysig, mae'r ymchwil hon yn cynnwys y rhai sydd â llesiant ariannol isel, y rhai sydd fwyaf angen cymorth, a phobl sydd angen cyngor ar ddyledion ar hyn o bryd a'r rhai sydd mewn perygl.

Yn MaPS, rydym yn gwybod y gall ein gwasanaethau ni – sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg – a gwasanaethau sefydliadau eraill, drawsnewid bywydau, ond dim ond os ydyn nhw'n cyrraedd y bobl sydd eu hangen fwyaf. Mae ymchwil fel hon yn ein helpu i lywio'r heriau sy'n wynebu pobl, gan sicrhau bod ein cymorth wedi'i dargedu ac yn effeithiol.

Mae MoneyView yn ategu ymchwil werthfawr a wneir gan bartneriaid, gan gynnwys arolwg Financial Lives yr FCA. Mae'r ddau yn gwasanaethu fel cyhoeddiadau blaenllaw o fewn eu sefydliad priodol ac yn ategu ei gilydd trwy eu harchwiliad o bynciau sy'n gysylltiedig â'u cylch gwaith gweithredol. Mae MoneyView yn ymwneud â nodi anghenion ariannol ymarferol; mae Financial Lives yn canolbwyntio ar ymgysylltiad defnyddwyr â marchnadoedd a chynhyrchion ariannol. Mae hefyd yn ategu Arolwg Cenedlaethol Cymru, sydd â'i archwiliad ei hun o lesiant a chyllid, gyda ffocws ar bynciau fel amddifadedd materol a gamblo.

Atebodd yr ymatebwyr gwestiynau ar amrywiaeth o bynciau yn ymwneud â llesiant ariannol. Mae'r meysydd hyn yn cyd-fynd â'r Nodau Cenedlaethol a amlinellir yn Strategaeth y DU ar gyfer Llesiant Ariannol a'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Cymru – ein fframwaith deng mlynedd i wella llesiant ariannol trwy gydweithio a phartneriaeth rhwng gwahanol sefydliadau. Cafodd hwn ei gyd-awduro gan Lywodraeth Cymru a'i greu ar y cyd â sefydliadau o bob cwr o Gymru.

Mae llawer wedi newid ers cyflwyno'r strategaeth hon gyntaf yn 2020. Ail-luniodd y pandemig fywyd bob dydd a'r ffordd yr oedd pobl yn rhyngweithio â'u harian. Mae canfyddiadau MoneyView 2024 yn dangos mwy o debygrwydd i ddata cyn-bandemig o 2018, o'i gymharu â'r mewnwelediadau o 2021, mewn sawl maes.

Fel cynullydd Strategaeth y DU ar gyfer Llesiant Ariannol, gyda chymorth Grŵp Llywio Llesiant Ariannol Llywodraeth Cymru, rhaid i ni barhau i fod yn hyblyg ac yn ymatebol i'r dirwedd ariannol sy'n newid. Bydd ein Strategaeth Gorfforaethol 2025-2028 yn darparu sylfaen gref i'n gwaith ein hunain, yn seiliedig ar egwyddor syml: drwy gydweithio, gallwn helpu pobl i reoli eu harian heddiw ac ar gyfer y dyfodol. Rwyf wedi mwynhau ymuno ag ymarferwyr lleol a thywyswyr ariannol ar lawr gwlad yng Nghymru i glywed am eu gwaith gwerthfawr a'r pryderon sy'n effeithio ar y bobl maen nhw'n eu cefnogi.

Yn y dyfodol, bydd MoneyView yn dod yn arolwg blynyddol, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i greu sylfaen dystiolaeth gref sy'n sbarduno newid ystyrlon. Drwy barhau i gynnal a rhannu ymchwil werthfawr, a thrwy ddefnyddio'r dystiolaeth hon i gryfhau ein cydweithrediad ar draws sectorau, gallwn gydweithio i barhau i ddatblygu a darparu cymorth i'r rhai sydd ei angen fwyaf.

Oliver Morley, Prif Swyddog Gweithredol

# Y data: trosolwg

## Datblygiad MoneyView

Mae MoneyView yn arolwg cenedlaethol cynrychioliadol o oedolion sy'n byw yn y DU. Mae'n gyfuniad o ddau arolwg presennol – yr Arolwg Llesiant Ariannol Oedolion, a gynhaliwyd ddiwethaf yn 2021, a'r Arolwg Angen Cyngor ar Ddyledion, sydd wedi'i gynnal bob blwyddyn ers 2020.

Wrth gydgrynhoi'r ddau arolwg, gallwn gynnal un ymarfer sy'n cwmpasu mwy o gylch gwaith MaPS, gan adlewyrchu'n fwy digonol yr heriau sy'n aml yn bodoli ar yr un pryd y mae'r bobl rydym yn eu cefnogi yn eu hwynebu. Mae arolwg blynyddol yn golygu y gallwn ni, a phartneriaid eraill, gael y wybodaeth ddiweddaraf am eu bywydau yn gyson.

Er mwyn cadw hyd yr holiadur yn addas, ni chafodd pob cwestiwn o'r ddau arolwg eu cynnwys yn y fersiwn derfynol. Fodd bynnag, cadwyd yr holl gwestiynau a ddefnyddiwyd ar gyfer olrhain ac adrodd ar fesurau allweddol. Mae hyn yn caniatáu i ni adeiladu ymhellach ar y dadansoddiad data helaeth o arolygon blaenorol.

## Y sampl

Cynhaliwyd cyfweliadau rhwng Gorffennaf a Hydref 2024, gyda dros 12,000 o unigolion yn ateb cwestiynau.

Er mwyn cyflawni sampl hollol gynrychioliadol yn genedlaethol, defnyddiwyd cymysgedd o gyfweliadau wyneb yn wyneb ar-lein ac all-lein. Yng Nghymru, mae hyn yn cyfateb i dros 1000 o gyfranogwyr.

Er bod MoneyView yn cynnig trosolwg eang o Gymru, bydd dadansoddiadau hefyd ar gael yn ôl awdurdod lleol ac etholaeth.



## Addasu ar gyfer meintiau sylfaen llai

Gofynnwyd yr holl gwestiynau i bob cyfranogwr. Fodd bynnag, gan fod meintiau'r sylfaen yng Nghymru a gwledydd datganoledig eraill yn llai na'r DU gyfan, roedd yn rhaid i ni ystyried hyn yn ein hadroddiad terfynol. O'r herwydd, mae achosion lle bu'n rhaid i ni gael gwared ar neu gyfuno grwpiau, yn enwedig lle roedd meintiau'r samplau yn rhy fach i allu adrodd yn ddibynadwy arnynt. Mae hyn yn cynnwys hunaniaeth rhywedd, ethnigrwydd a mamolaeth.

Cynigiwyd yr arolwg yn y Gymraeg a'r Saesneg i bob ymatebydd yng Nghymru.

## Defnyddio data MoneyView

Un o brif nodau MoneyView yw rhoi llais i bobl go iawn. Er mai cyfweliadau ar-lein yw'r dull gorau yn aml ar gyfer cynnwys defnyddwyr rhyngrwyd trymach, mae dull cwbl ar-leinyn peryglu eithrio grwpiau sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol ac sydd wedi'u gwthio i'r cyrion.

Felly, cwblhawyd 15% o gyfanswm sampl MoneyView drwy gyfweliadau wyneb yn wyneb, fel y gallem asesu effaith y newid yn y dull casglu data ar barhad canlyniadau. Yn benodol, fe geisiom hybu is-grwpiau allweddol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn paneli ar-lein gan gynnwys y rhai nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd, y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a grwpiau oedran hŷn. Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, cynhaliwyd 200 o gyfweliadau (oddeutu 20%) wyneb yn wyneb.

Drwy'r ymchwil hon, mae MaPS a sefydliadau eraill sy'n gweithio ym maes lles ariannol yn gallu nodi pwy sydd fwyaf mewn angen, a dylunio a thargedu ymyriadau yn fwy effeithiol i helpu'r unigolion hyn.

Rydym yn adolygu teithiau cwsmeriaid ar draws ein holl wasanaethau, gan gynnwys ein deunydd ar MoneyHelper a'n gweithrediadau pensiynau, er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion defnyddwyr ac yn cyrraedd y rhai a fyddai'n elwa ohonynt.

Mae hefyd yn ein helpu i gyfrannu at ddatblygiad gwasanaethau newydd, fel rhaglen Dangosfwrdd Pensiynau MoneyHelper sydd ar ddod.

Mae gwersi o'r set ddata hon hefyd yn ein helpu i ddeall yr angen am gyngor ar ddyledion mewn gwledydd â llywodraethau datganoledig. Yn ogystal, mae'n ein helpu i osod canllawiau a chwestiynau gwybodus ar gyfer comisiynu cyngor ar ddyledion yn y gymuned.

## Sut gall eich sefydliad ddefnyddio MoneyView

Mae'r ymchwil hon wedi'i chynllunio i rymuso sefydliadau eraill i adeiladu cynhyrchion a gwasanaethau sy'n addas i'w cynulleidfaoedd eu hunain. Mae hefyd yn ategu ymchwil hanfodol sefydliadau eraill, gan gryfhau ein sylfaen dystiolaeth gydweithredol i helpu pobl i reoli eu harian heddiw ac ar gyfer y dyfodol.

Bydd y set ddata lawn ar gael drwy'r **Canolfan Ymchwil Data Defnyddwyr** i sefydliadau ei defnyddio er lles y cyhoedd. Gallai dadansoddiadau unigol yn ôl awdurdod lleol ac etholaeth fod yn ddefnyddiol ar gyfer llywio rhaglenni a gweithgareddau ar lefel leol.

**Dysgu rhagor am ddefnyddio data arolwg MaPS**

# Cipolwg ar Gymru

## Cyflwr y genedl

Mae'r arolwg yn dangos bod Cymru yn fras yr un fath â gweddill y DU o ran lles ariannol, gyda thua hanner y boblogaeth yn ei chael hi'n anodd cadw i fyny, yn syrthio ar ei hôl hi gyda'u biliau, ddim yn cynilo'n rheolaidd ac yn methu parhau am dri mis pe byddent yn colli eu prif ffynhonnell incwm. Roedd tua 1 o bob 5 o bobl yn benthyca i dalu biliau neu brynu bwyd, ac ni allai 1 o bob 4 dalu bil annisgwyl o £300.


Yn seiliedig ar y darlun hwn, rydym hefyd yn gweld 13% o bobl yn dangos arwyddion cryf o fod angen cyngor ar ddyledion oherwydd ôl-ddyledion, defnyddio credyd cost uchel, gweithredu gan gredydwyr ac effeithiau negyddol eraill. Mae 20% arall yn disgyn i'r grŵp 'mewn perygl' trwy ddangos dangosyddion cynnar o ddyled broblemus ac felly byddent yn elwa o arweiniad ariannol. Mae'r ddau ffigur hyn ychydig yn is na chyfartaledd y DU.

## Mesur lles ariannol

Isel – Mae bron pawb yn y grŵp hwn yn cael trafferth neu'n mynd ar ei hôl hi gyda biliau/credyd. Ychydig iawn o wydnwch sydd ganddyn nhw i ymdopi pe bydden nhw'n colli eu prif ffynhonnell incwm, oherwydd bod gan lawer gynilion dibwys. Mae gan y mwyafrif incwm isel a dim cynllun ar gyfer ymddeol.

Canolig – Er nad yw mor acíwt ag isel, mae'r grŵp hwn yn cynnwys llawer o bobl sy'n dal i gael trafferth gyda biliau. Mae eu gwydnwch ychydig yn well, ond ni allai llawer barhau mwy na thri mis pe byddent yn colli eu prif ffynhonnell incwm. Mae arwyddion o gynllunio ymddeol ychydig yn well, ond mae digon o le i wella o hyd.

Uchel – Mae'r grŵp hwn yn ymdopi'n dda â biliau a chredyd, ac mae ganddo wydnwch ariannol uchel. Maent yn cynilo'n rheolaidd ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ymddeoliad ac yn cynllunio ar ei gyfer. Mae llawer ohonynt yn berchen ar eu cartref yn llwyr.



# Cipolwg ar Gymru

## Credyd

**19%**

yn aml yn defnyddio cerdyn credyd, gorddrafft neu'n benthyca arian i brynu bwyd neu dalu biliau oherwydd eu bod wedi rhedeg yn brin o arian

**57%**

yn ei chael hi'n anodd cadw i fyny, yn syrthio ar ei hôl hi, neu wedi syrthio ar ei hôl hi gyda'u hymrwymiadau

## Cynilio

**51%**

peidio â chynilo yn rheolaidd

**30%**

Methu â thalu bil annisgwyl o £300 o arian sbâr neu fenthyca fforddiadwy

## Ymddeol

**61%**

Ddim yn deall digon i wneud penderfyniadau ynghylch ymddeoliad

**56%**

heb gynllun ar gyfer eu cyllid ar ôl ymddeol

**Boddhad**

**71%** Ddim yn fodlon ar eu hamgylchiadau ariannol cyffredinol

71%

**Gwydnwch**

**54%** ni allai barhau am dri mis neu fwy heb fenthyca os collir eu prif ffynhonnell incwm


54%

**Hyder**

**46%** ddim yn teimlo'n hyderus yn rheoli eu harian

46%

## Cyngor ar ddyledion




**Ffynhonnell:** MoneyView Cymru 2025 **Sylfaen:** Holl ymatebwyr Cymru (1,165), ac eithrio cwestiynau ymddeol yn seiliedig ar yr holl ymatebwyr o oedran gweithio 18-65 oed (919)

# Cipolwg ar dueddiadau Cymru

## Credyd

| | |
|---|---|
| 2018 | 14% |
| 2021 | 20% |
| 2024 | 19% |

yn aml yn defnyddio cerdyn credyd, gorddrafft neu'n benthyca arian i brynu bwyd neu dalu biliau oherwydd eu bod wedi rhedeg yn brin o arian

| | |
|---|---|
| 2018 | 47% |
| 2021 | 47% |
| 2024 | 57% |

yn ei chael hi'n anodd cadw i fyny, yn syrthio ar ei hôl hi neu wedi syrthio ar ei hôl hi gyda'u hymrwymiadau

| | |
|---|---|
| 2018 | 42% |
| 2021 | 47% |
| 2024 | 46% |

ddim yn teimlo'n hyderus yn rheoli eu harian

## Cynilio

| | |
|---|---|
| 2018 | 44% |
| 2021 | 40% |
| 2024 | 51% |

peidio â chynilo yn rheolaidd

| | |
|---|---|
| 2018 | 32% |
| 2021 | 29% |
| 2024 | 30% |

Methu â thalu bil annisgwyl o £300 o arian sbâr neu fenthyca fforddiadwy

| | |
|---|---|
| 2018 | 49% |
| 2021 | 51% |
| 2024 | 54% |

ni allent barhau am dri mis neu fwy heb fenthyca os collir eu prif ffynhonnell incwm

## Ymddeol

| | |
|---|---|
| 2018 | 57% |
| 2021 | 57% |
| 2024 | 61% |

Ddim yn deall digon i wneud penderfyniadau ynghylch ymddeoliad

| | |
|---|---|
| 2018 | 54% |
| 2021 | 54% |
| 2024 | 56% |

heb gynllun ar gyfer eu cyllid ar ôl ymddeol

| | |
|---|---|
| 2018 | 66% |
| 2021 | 68% |
| 2024 | 71% |

ddim yn fodlon ar eu hamgylchiadau ariannol cyffredinol

## Cyngor ar ddyledion

| | |
|---|---|
| 2022 | 15% |
| 2023 | 13% |
| 2024 | 13% |

angen cyngor ar ddyledion

| | |
|---|---|
| 2022 | 22% |
| 2023 | 23% |
| 2024 | 20% |

mewn perygl o fod angen cyngor ar ddyledion

| | |
|---|---|
| 2022 | 63% |
| 2023 | 64% |
| 2024 | 68% |

ddim angen cyngor ar ddyledion

**Ffynhonnell:** MoneyView Cymru 2025 **Sylfaen:** Holl ymatebwyr Cymru (1,165), ac eithrio cwestiynau ymddeol yn seiliedig ar yr holl ymatebwyr o oedran gweithio 18-65 oed (919)
**Cymariaethau:** Arolwg Llesiant Ariannol Oedolion 2021 a 2018 neu Arolwg Anghenion Dyled 2022 neu 2023 ar gyfer mesur cyngor ar ddyledion.

# Cipolwg ar dueddiadau Cymru

## Beth sydd wedi newid?

Rydym wedi olrhain agweddau allweddol ar lesiant ariannol ers 2018.

Drwy ddilyn y tueddiadau, gallwn weld bod pwysau diweddar ar gostau byw wedi arwain at ymddygiad cynilo is a gwydnwch ariannol is. Mae trafferthion gyda biliau a benthyca ar gyfer pethau bob dydd hefyd wedi gwaethygu ychydig.

I'r gwrthwyneb, mae pwysau costau byw a chynnydd mewn cyfraddau morgais wedi lleihau rhai o'r bylchau yr oedd ein **Harolwg Llesiant Ariannol Oedolion y DU 2021** wedi awgrymu bod Covid wedi'u lledu.

Er enghraifft, mae talwyr morgeisi a phobl dros oedran pensiwn y wladwriaeth yn dal i fod ymhlith y rhai sy'n gwneud yn well. Fodd bynnag, mae eu sefyllfa wedi gwaethygu.

## Y cyd-destun anarferol

Gwelwn fod pethau a oedd wedi gwella yn 2021, yn ystod y pandemig, wedi gwaethygu eto, gan gynnwys cynilo rheolaidd a gwydnwch ariannol.

Fodd bynnag, nid yw pethau a waethygodd yn ystod Covid o reidrwydd wedi adlamu'n ôl. Er enghraifft, gostyngodd hyder mewn rheoli arian yn 2021 ac mae'n dal yn is nag yn 2018.

Mae'r gwaethygu cyffredinol yn ymddangos yn syndod o fach o ystyried y pwysau ar gyllidebau aelwydydd.

## Pwy sydd â'r angen mwyaf am gymorth?

Rydym yn gweld darlun cyson, gyda'r un grwpiau sydd fwyaf angen cymorth ag mewn ardaloedd eraill o'r DU. Mae'n ymddangos bod bylchau a ehangodd rhwng 2018 a 2021 yn parhau yn 2024.

Mae'r grwpiau sydd fwyaf tebygol o fod â llesiant ariannol is yn cynnwys rhentwyr cymdeithasol, rhieni sengl, pobl ag anabledd neu gyflwr hirdymor cyfyngol, yn enwedig os yw hyn yn effeithio arnynt yn gymdeithasol, yn ymddygiadol, o ran cof neu iechyd meddwl, a phobl sydd wedi profi problemau diweddar gyda'u hiechyd meddwl.

Fel y disgwyliwyd, mae llesiant ariannol hefyd yn tueddu i fod yn is ymhlith aelwydydd incwm is (o dan £30k y flwyddyn ac yn enwedig o dan £20k), rhentwyr preifat a phobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.



# Y cysylltiad rhwng cynhwysiant ariannol a llesiant ariannol



Bydd Strategaeth Cynhwysiant Ariannol llywodraeth y DU yn canolbwyntio ar wella mynediad at gynhyrchion ariannol fforddiadwy, ac ar wasanaethau sy'n cefnogi pobl i feithrin gwydnwch ariannol. Mae gan Gymru ei gweithgareddau unigryw ei hun o amgylch cynhwysiant ariannol a digidol, gyda mentrau a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â heriau cenedlaethol.

Mae'r adran hon o MoneyView yn cymharu sgorau llesiant ariannol unigolion â marcwyr allgáu ariannol. O ymchwil flaenorol gallem ddisgwyl, pan fydd gan bobl hyder isel neu ddealltwriaeth wael o'r cynhyrchion ariannol sydd ar gael, eu bod yn colli allan ar gredyd fforddiadwy, cynhyrchion cynilo a buddsoddi neu gyngor ar ddyledion a allai wella eu sefyllfa ariannol.

## Pwy sy'n cael eu heffeithio fwyaf?

Yr un grwpiau o bobl sy'n cael eu heffeithio amlaf gan lesiant ariannol isel ag mewn gwledydd eraill yn y DU. Mae'r rhain yn cynnwys unigolion ar incwm isel, rhentwyr, y rhai mewn ardaloedd difreintiedig, rhieni sengl a phobl anabl.

## Mae allgáu ariannol yn golygu llesiant ariannol is

Mae pobl â lefelau is o lesiant ariannol:

- ddwywaith yn fwy tebygol o'i chael hi'n anodd benthyca mewn ffordd fforddiadwy
- ddwywaith yn fwy tebygol o beidio â chael cyfrif cynilo
- bron ddwywaith yn fwy tebygol o beidio â chael yswiriant cynnwys

# Llesiant ariannol a chynhwysiant ariannol yng Nghymru


**Dyled broblemus**
Angen cyngor ar ddyledion

**Cynhwysiant digidol**
Ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd

Ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd/bancio symudol

**Credyd fforddiadwy**
Yn ei chael hi'n anodd benthyca mewn ffordd fforddiadwy

**Cynilion**
Dim cyfrif cynilo




**Ffynhonnell:** MoneyView Cymru 2025 **Sylfaen:** Holl ymatebwyr Cymru (1,165)


# Llesiant ariannol a chynhwysiant ariannol yng Nghymru

## Yswiriant
Dim yswiriant cynnwys

## Addysg/gallu ariannol
Ddim yn hyderus wrth wneud penderfyniadau am gynhyrchion a gwasanaethau ariannol

## Mynediad i fancio
Talu am bopeth/y rhan fwyaf o bethau ag arian parod

Dim cyfrif cyfredol




**Ffynhonnell:** MoneyView Cymru 2025 **Sylfaen:** Holl ymatebwyr Cymru (1,165)

# Mesur llesiant ariannol


## Defnyddio'r Offeryn Ffitrwydd Ariannol

Mae mesur llesiant ariannol yn MoneyView wedi'i alinio ag **Offeryn Ffitrwydd Ariannol MaPS**, trwy gynnwys cwestiynau allweddol yn yr arolwg.

Mae'r Offeryn Ffitrwydd Ariannol, sydd ar gael i'w ddefnyddio am ddim gan unrhyw sefydliad, yn set o naw cwestiwn y gall unigolion eu defnyddio i fesur eu lefel o lesiant ariannol. Mae'r cwestiynau hyn yn crynhoi canlyniadau allweddol llesiant ariannol – teimlo'n hyderus, yn wydn ac yn rymus. Maent hefyd yn ymdrin â'r galluogwyr a'r ymddygiadau allweddol y dangoswyd eu bod yn effeithio'n gadarnhaol ar lesiant ariannol, yn enwedig cynilo, defnyddio credyd a chynllunio ar gyfer ymddeoliad.


Drwy gynnwys y naw cwestiwn hyn yn y prif arolwg, rydym yn gallu cael trosolwg o'r meysydd allweddol hyn, a darparu meincnod ar gyfer arolygon yn y dyfodol, ac un y gall cwmnïau unigol fesur llesiant ariannol eu gweithwyr yn ei erbyn.

## Ffitrwydd ariannol




**Offeryn Ffitrwydd Ariannol**
sgôr yn seiliedig ar naw cwestiwn, heb gynnwys yr angen dyled

## % yr is-grŵp gyda Lles Ariannol Isel




**Ffynhonnell:** MoneyView Cymru 2025 **Sylfaen:** Holl ymatebwyr Cymru (1,165)

# Angen cyngor ar ddyledion

Mae adran ddyledion MoneyView yn rhoi cipolwg i ni ar yr angen am gyngor ar ddyledion ar draws croestoriad cenedlaethol cynrychioliadol o'r boblogaeth, gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig, cymunedau difreintiedig yn gymdeithasol a chymunedau gwledig.

Mae'r mesur rydym yn ei ddefnyddio yn nodi'r bobl sydd angen cyngor ar ddyledion a'r rhai sydd mewn perygl o fod ei angen os nad yw eu sefyllfa'n dangos unrhyw welliant. Mae'r cwestiynau a ofynnir yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar ffeithiau, yn hytrach nag ystyried teimlad. Mae'n seiliedig ar bobl yn dweud wrthym am daliadau y maent ar ei hôl hi arnynt a chamau gweithredu gan gredydwyr i adennill dyledion.

## Newidiadau i'r arolwg

Yn ddatblygiad o'n Harolwg Anghenion Dyled blynyddol, roeddem yn gallu cynnwys cynulleidfaoedd all-lein trwy gynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb, gan roi cipolwg ychwanegol i ni ar grwpiau a oedd wedi'u heithrio o'r blaen.

## Sut rydym yn defnyddio'r llinyn Angen Cyngor ar Ddyledion

Mae gwersi o'r set ddata hon yn ein helpu i ddeall natur y boblogaeth sydd angen cyngor ar ddyledion mewn gwledydd â llywodraethau datganoledig. Yn ogystal, gall ein helpu i osod canllawiau a chwestiynau ar gyfer comisiynu cyngor ar ddyledion yn y gymuned – rydym am wybod sut y gall sefydliadau wasanaethu'r bobl sydd fwyaf mewn angen.


Rydym hefyd yn defnyddio'r data hyn i broffilio pobl sydd mewn perygl o fynd i ddyled broblemus a'r rhai sydd angen cyngor ar ddyledion nawr, yn ogystal â sut mae hyn yn newid. Wrth wneud hynny, gallwn ddylunio gwasanaethau sydd wedi'u targedu'n benodol at y rhai sydd fwyaf mewn angen.

## Yr angen am gyngor ar ddyledion yng Nghymru

**13%** mae gan oedolion yng Nghymru arwyddion cryf o fod angen cyngor ar ddyledion oherwydd ôl-ddyledion, defnyddio credyd cost uchel, gweithredu gan gredydwyr ac effeithiau negyddol eraill

13%

## % yr is-grŵp sydd angen cyngor ar ddyledion





**Ffynhonnell:** MoneyView Cymru 2025 **Sylfaen:** Holl ymatebwyr Cymru (1,165)

# Cipolwg ar y cenhedloedd

Rydym yn edrych ar wahanol farcwyr lles ariannol ar draws y pedair gwlad.


**Llesiant ariannol is** | **Biliau – yn ei chael hi'n anodd/ar ei hôl hi** | **Yn aml yn benthyca ar gyfer eitemau bob dydd** | **Methu â thalu bil £300** | **Ddim yn cynilo bob mis/y rhan fwyaf o fisoedd**




**Ffynhonnell:** MoneyView DU 2025 **Sylfaen:** Holl ymatebwyr Lloegr (9,142), Holl ymatebwyr yr Alban (1,042), Holl ymatebwyr Cymru (1,165), Holl ymatebwyr Gogledd Iwerddon (1,005)

# Cipolwg ar yr opsiynau

Rydym yn edrych ar wahanol farcwyr lles ariannol ar draws y pedair gwlad.




**Ffynhonnell:** MoneyView DU 2025 **Sylfaen:** Holl ymatebwyr Lloegr (9,142), Holl ymatebwyr yr Alban (1,042), Holl ymatebwyr Cymru (1,165), Holl ymatebwyr Gogledd Iwerddon (1,005)

# Geirfa

**Offeryn Ffitrwydd Ariannol**
Mae'r offeryn yn set o naw cwestiwn wedi'u ffocysu y gall unigolion eu defnyddio i fesur eu lefel o lesiant ariannol mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.

Mae'r cwestiynau'n crynhoi canlyniadau allweddol llesiant ariannol – teimlo'n hyderus, yn wydn ac yn rymus. Maent hefyd yn ymdrin â'r galluogwyr a'r ymddygiadau allweddol y dangoswyd eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant ariannol, yn enwedig cynilo, defnyddio credyd a chynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Dysgwch ragor am **sut y gwnaethom ddatblygu'r Offeryn Ffitrwydd Ariannol**

## Cynhwysiant ariannol

Cynhwysiant ariannol yw gallu unigolyn ac aelwydydd i gael mynediad at gynhyrchion a gwasanaethau ariannol fforddiadwy a phriodol.

**Amddifadedd ardal leol**
Mae amddifadedd ardal leol yn fesur o ba mor amddifad yw ardal fach yn seiliedig ar bethau megis: incwm, cyflogaeth, addysg a sgiliau, iechyd, troseddu, tai a'r amgylchedd byw.

Mae pedair gwlad y DU yn mesur amddifadedd mewn gwahanol ffyrdd:

**Lloegr**
**Gogledd Iwerddon**
**Yr Alban**
**Cymru**

**Segmentau MaPS**
Fframwaith sy'n cael ei ddatblygu ac sy'n cael ei ddefnyddio gan MaPS i rannu poblogaeth y DU yn segmentau. Mae'r boblogaeth yn cael ei rhannu'n segmentau sydd â phrofiadau tebyg – megis chael hi'n anodd, wedi'u gwasgu ac wedi'u clustogi. Fe adnewyddwyd y segmentu yn 2024 er mwyn cyd-fynd yn well â'r Offer Ffitrwydd Ariannol a ddatblygwyd yn ddiweddar, gan sicrhau bod y segmentau'n adlewyrchu lefelau lles ariannol – isel, canolig ac uchel – yn fwy cywir.
**Dysgu rhagor am segmentau MaPS**

**Angen cyngor ar ddyledion**
Pobl sydd ar ei hôl hi ar hyn o bryd ag un neu fwy o filiau blaenoriaeth, yn wynebu camau gweithredu gan gredydwyr yn gynnar neu'n hwyr ynghyd â defnyddio credyd cost uchel tymor byr a heb allu fforddio hanfodion.

Lawrlwytho **esboniad o'r mesur angen cyngor ar ddyledion a ddatblygwyd gan MaPS**

**Rhentwr preifat**
Rhentwr neu denant preifat yw rhywun sy'n rhentu ei gartref gan landlord preifat, a allai fod yn unigolyn, yn syndicet neu'n gwmni cyfyngedig. Mae'r landlordiaid hyn yn gosod eiddo i unigolion a theuluoedd am brisiau'r farchnad.

**Nodwedd Warchodedig**
Nodweddion a ddiffinnir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a deddfwriaeth berthnasol arall o fewn y gwledydd datganoledig.

**Problem iechyd meddwl ddiweddar**
Yng nghyd-destun yr arolwg hwn, mae hon yn golygu problem iechyd meddwl o fewn y tair blynedd diwethaf. Nid oes rhaid i unigolion fod wedi cael diagnosis iechyd meddwl swyddogol.

**Oedran ymddeol**
Yng nghyd-destun yr arolwg hwn, diffinnir oedran ymddeol fel yr oedran y gallwch hawlio pensiwn y wladwriaeth, sef 66 ar hyn o bryd.

**Rhentwr cymdeithasol**
Rhentwr cymdeithasol neu denant yw rhywun sy'n rhentu ei gartref gan gymdeithas dai neu gyngor lleol. Mae gan gartrefi rhent cymdeithasol renti sy'n cael eu gosod gan fformiwla sy'n gysylltiedig ag incwm lleol.

Gwasanaeth Arian a Phensiynau